

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: David Cook

Mudiad (lle bo'n berthnasol): Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

E-bost / Rhif ffôn: dcook@wcva.cymru

Cyfeiriad: CGGC, Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae gan y Cynllun Gweithredu dri maes penodol yr hoffem i chi roi eich barn i ni arnynt. Maent yn cynnwys y tudalennau sy'n gosod y weledigaeth, y themâu polisi gyda'r nodau a'r camau gweithredu, a'r adran lywodraethu.

Gallwch roi sylwadau ar un neu fwy o'r meysydd hyn.

Ceir rhai cwestiynau isod a allai eich helpu i ymateb:

- 1. A yw'r weledigaeth, y diben, y gwerthoedd a'r dyfodol dychmygol hyd at 2030 yn adlewyrchu'r hyn yr hoffech ei weld yn cael ei gyflawni erbyn 2030? Beth allai rwystrô'r weledigaeth a'r gwerthoedd rhag cael eu gwireddu? Beth allai helpu i wireddu'r weledigaeth a'r gwerthoedd?**

Byddem yn bendant yn hoffi gweld y weledigaeth, y diben a'r gwerthoedd yn cael eu cyflawni erbyn 2030. Byddai'n well o lawer i Gymru. Ond bydd angen cryn dipyn o adnoddau a chymorth i hyn lwyddo.

Mae **effeithiau parhaus COVID-19** yn parhau i fod yn rhwystr i lwyddiant. Gwyddys fod y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar y rheini o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gyda llawer ohonynt yn methu â gweithio o gartref, felly'n fwy agored i ddal y feirws. Bydd adfer o'r pandemig bron yn sicr o arwain at gynt pellach wrth i Lywodraeth y DU geisio cydbwyso ei chyllideb, gan effeithio o bosibl ar gyllideb Llywodraeth Cymru ei hun. Mae cyni hefyd wedi effeithio'n anghymesur ar bobl ethnig lleiafrifol yn y gorffennol, gyda llawer yn byw mewn cymunedau llai cefnog a gariodd pen trymaf y toriadau i wasanaethau. Roedd hyn yn gwbl anghyfartal ac os bydd yr un peth yn digwydd eto, bydd yn effeithio'n negyddol ar siawns y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol o lwyddo.

Rhwystr arall, sy'n adleisio'r ymateb gan y Gynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a hwylusir gan CGGC, yw **nad oes diffiniad clir o 'hiliaeth' a 'gwrth-hiliaeth'** yn y Cynllun. Fel y nodir gan y Gynghrair, mae llawer mwy i hiliaeth na 'gweithredoedd gweladwy o gasineb hiliol'; mae'n ymwneud ag ansensitifrwydd didaro, y safbwyntiau a dderbynnir yn gyffredinol sy'n seiliedig ar anwireddau a diffyg dealltwriaeth yn gyffredinol o brofiadau byw pobl ethnig amrywiol'. Er mwyn sicrhau bod Cymru yn wrth-hiliol erbyn 2030, mae angen i Lywodraeth Cymru nodi'n gwmws beth mae'n ei chredu yw ystyr gwrth-hiliaeth. Bydd hyn, a sicrhau llwyddiant y Cynllun yn

gyffredinol, yn golygu llawer mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd. Nid yw gwrth-hiliaeth yn flaenoriaeth ym mywydau bob dydd y mwyafrif o bobl. Bydd angen rhaglen eang o ymgysylltiad cyhoeddus i helpu pobl i sylweddoli graddfa'r broblem a theimlo'n rhan o'r ymdrech i gyfrannu at y datrysiad. Gall yr [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#), a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, helpu gyda hyn. Gellid hefyd bwysleisio nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan o'r ymgysylltu hwn – fel rydym wedi'i [nodi'n flaenorol](#), mae'r sector yn teimlo bod y Ddeddf hon yn 'bell' o realiti bywydau pobl, a gallai hwn fod yn gyfle i'w amlygu ymhellach.

Mae hefyd angen **buddsoddi ymhellach yn y sector gwirfoddol** er mwyn cynyddu siawns y Cynllun o lwyddo ymhellach. Mae'r sector yn gweithio'n agosach gyda chymunedau llawr gwlad, gan gynnwys pobl na chlywir ganddynt yn aml - sy'n cynnwys llawer o bobl o gymunedau lleiafrifol ethnig - nag unrhyw garfan arall. Byddai **cylchoedd cyllido diogel dros nifer o flynyddoedd** yn caniatáu i fudiadau'r sector a gwirfoddolwyr, yn enwedig y rheini sy'n gweithio'n benodol gyda chymunedau lleiafrifol ethnig, wella cyfranogiad pobl leiafrifol ethnig ymhellach mewn cymunedau ledled y wlad. Fel y dangoswyd gan yr ymateb gwirfoddoli cyntaf i'r pandemig, mae gwirfoddoli'n allweddol i ddod â phobl ynghyd o bob math o gefndiroedd. O ran ymgysylltiad y sector â chymunedau llawr gwlad, hoffem amlygu'r rôl y gallai'r offer a ddatblygwyd gan [brosiect Dyfodol Gwell Cymru](#) ei chwarae mewn creu cymunedau cadarnhaol, gwrth-hiliol. Mae potensial yma hefyd am rôl i brosiectau a gyllidir gan unrhyw **Gronfa Cyfoeth Cymunedol** yn y dyfodol.

Rhaid annog mudiadau ledled Cymru ymhellach i **gyd-gynhyrchu a chydgyllunio** eu gwasanaethau gyda'u defnyddwyr gwasanaethau. Wrth feithrin y cydberthnasau hyn, rhaid sicrhau y gall pobl o bob cefndir ddod ynghyd a bod yn gydberchnogion o wasanaethau a phrosiectau a chael mwy o barch at ei gilydd. Bydd hyn, yn y pen draw, yn cyfrannu at wneud Cymru yn wlad lai hiliol. Gwnaeth [Manifesto 2021 y Sector Gwirfoddol](#) hyrwyddo **Deddf Grymuso Cymunedau**. Byddai Deddf o'r fath yn gwella lefelau cyd-gynhyrchu, yn pwysleisio datblygiadau seiliedig ar le ac yn gwella hawliau mudiadau sy'n gobeithio trosglwyddo asedau cymunedol. Ni fydd gan lawer o weithgareddau gwirfoddoli'r nod uniongyrchol o wella cydlyniant cymunedol, a bydd ganddynt brif ddiben gwahanol. Fodd bynnag, gall y grwpiau hyn chwarae rôl bosibl mewn dwyn cymunedau ynghyd a dylent gael eu cydnabod mewn unrhyw gynllun, ochr yn ochr â grwpiau ychwanegol â swyddogaethau datblygu cymunedau ac integreiddio mwy amlwg. Byddai deddf o'r fath yn fuddiol tu hwnt i gydlyniant cymunedol yn gyffredinol a, chan hynny, yn helpu i greu Cymru wrth-hiliol.

Bydd angen gosod **meincnod** i fesur effaith holl gamau gweithredu'r Cynllun er mwyn mesur ei lwyddiannau, neu fethiannau. Heb hyn, sut gellir gweld beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio?

Yn olaf, sylw ar y **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)** sydd, yn ôl pob golwg, yn mynd i fod yn un o brif estyll rhaglen ddeddwriaethol Llywodraeth Cymru am rai blynyddoedd. Mae CGGC yn cefnogi prif fyrddwn y Bil ac mae hawliau gwaith teg yn bendant yn elfen allweddol i greu gwlad wrth-hiliol. Fodd bynnag, bydd hyn yn anoddach o lawer i'w wneud os na chaiff y sector fwy o seddau ar y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (SPC). Fel [y nodwyd cyn nawr gan CGGC](#), mae Undebau Llafur yn cael hanner y seddau, ac eto mae llai na 9% o aelodau Undebau Llafur yn bobl ethnig leiafrifol a dim ond un rhan o dair o weithwyr Cymru sy'n

aelodau o Undebau Llafur. Golyga hyn y gallai'r SPC fethu â chlywed ystod enfawr ac amrywiol o leisiau. Un ffordd o ddatrys hyn yw sicrhau bod yr SPC yn cynrychioli'r amrywiaeth yng Nghymru'n well, gan sicrhau bod lleisiau mudiadau cymunedol a gwirfoddol yn gallu cael eu clywed.

**2. Hoffem gael eich barn ar y nodau a'r camau gweithredu. I fynegi barn ar rai o'r nodau, camau gweithredu a chanlyniadau, neu bob un ohonynt, ystyriwch y canlynol:**

**(a) A yw'r esboniad (naratif / cefndir) yn egluro pam rydym wedi dewis y nodau a'r camau gweithredu yn y maes polisi hwn?**

Mae CGGC yn siomedig bod cyn lleied o gydnabyddiaeth wedi'i rhoi yn y Cynllun i'r gwaith gwirfoddoli anffurfiol sy'n cael ei wneud gan unigolion lleiafrifol ethnig dros eu cymunedau priodol – dim ond cwpwl o frawddegau ar dudalen 105 ac yn nodau terfynol y tablau. Mae hyn yn cyflwyno'r her o sut gallwn ni fesur llwyddiant Llywodraeth Cymru o ran cydnabod yr ymdrechion hyn pan nad oes amserlen na chamau gweithredu cadarn i wneud hyn. Gallai gwirfoddolwyr gael credydau amser a gallai system wobrwyo gael ei chreu ar y cyd o bosibl – ond gyda phwy? Beth fyddai'r gwobrau hynny – ac a yw hyn yn ddigon o gydnabyddiaeth? A allai derbyn gwobr glymu i mewn i gymhwysedd ar gyfer cyllid (fel y nodir ar dudalen 105) i ffurfioli ymdrechion gwirfoddoli?

Cred CGGC y dylai gwirfoddoli, ffurfiol ac anffurfiol, fod wedi'i amlygu o fewn yr adran 'yr achos dros newid', ochr yn ochr â phrofiad gweithlu o dan 'trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu' a naill ai wedi cael ei bennawd ei hun neu ei blethu'n gryf â nodau polisi perthnasol eraill.

**(b) A oes unrhyw flaenoriaethau neu wybodaeth gefndir ar goll neu unrhyw wybodaeth arall?**

**(c) Ydych chi'n cytuno â'r nodau a'r camau gweithredu a ddewiswyd? Pa gamau fyddech chi'n eu hychwanegu neu eu dileu?**

Byddai'n braf cael nod penodol ynghylch cydlyniant cymunedol. Cyfeirir at Raglen Cydlyniant Cymunedol yn y Cynllun, ond nid oes unrhyw sôn am y rôl y gallai gwirfoddoli ei chwarae ynddi. Byddai CGGC yn croesawu trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar sut gallai gwirfoddoli helpu i wneud y rhaglen yn llwyddiannus.

**(d) A fydd pob nod a cham gweithredu cysylltiedig yn cynhyrchu'r canlyniadau dymunol a nodwyd gennym? Os na, beth fyddech chi am ei newid fel ein bod yn cyflawni newidiadau sy'n wirioneddol wrth-hiliol yn yr amserlenni a nodir?**

**(e) Sut y gellid cynyddu neu liniaru'r effaith gadarnhaol neu negyddol?**

- **Addysg:**

Ar dudalen 71, nodir y bydd Llywodraeth Cymru yn 'herio' partneriaid grant, fel yr Urdd, Mentrau Iaith, Mudiad Meithrin a RhAG i 'ystyried eu rôl wrth gyfleu agweddau cadarnhaol ynghylch hil, ethnigrwydd, cydraddoldeb yn ogystal â'r Gymraeg a threftadaeth ddiwylliannol'. Mae'n bur debyg y bydd angen cymorth ychwanegol ar fudiadau o'r fath i ymgymryd â gweithgarwch fel hwn.

Mae llawer o'r gwaith cadarnhaol ar integreiddio a chydraddoldeb yn cael ei wneud trwy wirfoddoli yn bennaf, ac eto i gyd, ni ellir gweld unrhyw gyfeiriad ato o dan y pennawd hwn. Mae gwirfoddoli eisoes, a bydd yn parhau i fod, yn rhan o'r datrysiad i fynd i'r afael â gwrth-hiliaeth mewn lleoliadau addysg i blant, pobl ifanc ac oedolion, a dylid ei gydnabod felly.

- **Troseddau casineb a chyfiawnder:**

Mae sylwadau mewn rhan arall o'r ymateb hwn ynghylch cymunedau cydlynol, yn benodol, ynghylch Deddf Cydlyniant Cymunedol, i gyd yn berthnasol i'r nod hwn.

- **Tai a llefy:**

Mae'r sector gwirfoddol yn cefnogi mynediad teg a chyfartal at dai. Efallai bydd angen cymorth penodol ar ddarparwyr tai ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl ddigartref i roi'r cynllun hwn ar waith.

- **Cyflogaeth ac incwm:**

Mae CGGC yn gweinyddu Cynhwysiant Gweithredol drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae Cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ymhlith y grwpiau cyfranogwyr sydd wedi'u gosod gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Byddai'n ddefnyddiol gweld y cynllun terfynol yn cydnabod y dysgu allweddol a'r arferion gorau y gall grwpiau sy'n helpu i ddarparu gweithgareddau cyflogadwyedd ar gyfer y boblogaeth o bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig eu darparu. Mae gan y grwpiau hyn, fel y Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig, ddealltwriaeth ddofn o'r rhwystrau a wynebir gan bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wrth geisio cael gwaith. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu i fynd i'r afael â themâu trawsbynciol fel tlodi, cynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd.

- **Iechyd:**

Mae CGGC yn adleisio sylwadau Marie Curie ynghylch pwysigrwydd casglu data ym maes iechyd mewn modd tosturiol a sensitif. Mae'n hanfodol fod pobl yn gwybod yn gwmws pam mae eu data'n cael ei gasglu ac ar gyfer beth y gallai gael ei ddefnyddio. Mae'n bosibl y bydd angen hyfforddiant ar staff perthnasol.

Nid ydym yn siŵr ble mae [Helpu Cymru](#), cydweithrediad rhwng partneriaid sy'n ceisio codi proffil a rôl strategol gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn eistedd o fewn yr adran 'gwasanaethau a chanlyniadau iechyd'. A fydd disgwyliad i fodloni'r un safonau a chyflawni'r un nodau gwrth-hiliaeth â'r GIG ac a fydd cyfle i dderbyn yr un hyfforddiant?

- **Gofal Cymdeithasol:**

Mae pwysigrwydd mynediad cyfartal at wasanaethau cymorth iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yn fater sydd wedi'i adrodd yn aml ac yn un sydd wedi gwaethygu yn ystod y pandemig. Mae'r weledigaeth, o fewn y cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, yn bwysig o ran gweithio gyda'n gilydd; lle mae darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar gael ac yn gyraeddadwy ac yn ystyried anghenion diwylliannol ac iaith o'r pwynt cyswllt cyntaf; dinasyddion yn cael eu cynnwys o ddyluniad y gwasanaeth drwyddo i ddarparu'r gwasanaeth, a gwerthuso gwasanaethau.

Y Gwerthoedd yw'r rheini y byddem yn disgwyl iddynt gael eu mabwysiadu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, fel y pwysigrwydd a roddir ar y profiad byw o hysbysu, newid ac arloesi. O safbwynt llesiant fodd bynnag, awgrymwn y dylai hwn gael ei ychwanegu fel nod trawsbynciol, yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, am fod ganddo rôl i'w chwarae ar draws y meysydd polisi a nodir ar dudalen 9 o'r ddogfen gryno.

Mae cymorth gwell i ofalwyr lleiafrifol ethnig o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wedi'i grybwyll fel canlyniad dymunol (Nod 2). Fodd bynnag, nid oes sôn am ddarparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer mudiadau'r sector gwirfoddol er mwyn cyflawni hyn o dan y 'camau gweithredu'. Efallai mai esgeulustod yw hyn, ond rhaid cynnig hyfforddiant a chymorth cyfartal i ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y sector gwirfoddol, ochr yn ochr â'r hyn a gynigir i'r sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod y nod hwn yn cael ei gyflawni mewn modd nad yw'n rhoi pwysau aruthrol ar fudiadau gwirfoddol/elusennau i ddatrys hyn ar eu pen eu hunain. Byddai'n ddefnyddiol, fel rhan o unrhyw hyfforddiant o'r fath, pe bai rheolwyr yn cael eu cyfarwyddo ag egwyddorion [Arweinyddiaeth Dosturiol](#) Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gwerth aruthrol mewn hyfforddiant cydweithredol – ymhlith yr enghreifftiau mae rhaglen Academi Cymru, Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru.

Byddai profiadau gwirfoddolwyr yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr o dan 'uchelgeisiau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol' (p64), ond nid yw'r rhain yn cael eu hystyried yn ôl pob golwg.

- **Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth:**

Gan fod nod yn bodoli i arweinwyr a byrddau uwch cyrff cyhoeddus ledled y wlad gael eu hyfforddi at lefel benodol o safonau amrywiaeth a chynhwysiant (gan

gynnwys “Prif Swyddogion Gweithredol pob corff cyhoeddus i nodi un amcan cynhwysiant ac amrywiaeth, sy’n canolbwyntio ar wrth-hiliaeth”) yna byddai’n gwneud synnwyr i gynrychiolwyr y sector gwirfoddol, fel Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) hefyd gael y cyfle i dderbyn hyfforddiant er mwyn cadw at y safonau hyn.

Croesawir y nod ynghylch galluogi datblygiad arweinwyr cymunedau lleiafrifol ethnig. Wrth geisio cyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y gwaith ymchwil sydd wedi’i wneud yn flaenorol ar ddamcaniaeth seiliedig ar leoedd, ac edrych ar sut gall ymdeimlad o falchder yn y lle y maen nhw’n byw rymuso cymunedau a chreu arweinwyr. Ceir mwy ar hyn yn adroddiad CGGC ar [Rymuso Cymunedau](#).

Rydym yn croesawu’r uchelgais i gyrff cyhoeddus ddefnyddio’u pwerau gwario i wella arweinyddiaeth a chynrychiolaeth ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol – ond bydd angen amserlen arnom i fesur llwyddiant, a digon o amser i’r sector addasu i unrhyw ofynion newydd, ynghyd â’r cymorth priodol i wneud hynny.

- **Y celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a threftadaeth:**

Er mwyn sicrhau’r cam gweithredu i ‘Gymryd camau i gynyddu amrywiaeth ethnig ar bob lefel o’r gweithlu, ac yn benodol, o fewn timau arwain ac ar fyrddau, yn ogystal ag o fewn swyddi cynllunio, dylunio, curadu a gwneud penderfyniadau’, bydd yn rhaid sicrhau bod datblygiad rolau a delir yn cael ei fonitro’n systemig, gan sicrhau nad oes gwahaniaethu o ran dyrchafiadau a chyfleoedd sydd ar gael i gyflogeion o gymunedau ethnig amrywiol. Bydd angen dyrannu adnoddau – amser a chyllid – er mwyn galluogi ymgysylltiad effeithiol â chymunedau lleiafrifol ethnig. Efallai y bydd angen hyfforddiant ar staff cyrff cyhoeddus ar ymgysylltu a hwyluso.

O ran cyllid, rhaid i baneli asesu grantiau fod yn amrywiol ac adlewyrchu’r boblogaeth, a dylai adnoddau fod ar gael i gyllidwyr grant hyrwyddo cynlluniau i gymunedau lleiafrifol ethnig.

O dan Nod 3, hoffem weld dathliadau a chydnabyddiaeth flynyddol o gyfraniad cymunedau ethnig amrywiol ym myd chwaraeon, treftadaeth a diwylliant, gan amlygu pobl sy’n esiampl i eraill.

O dan Nod 5, dylai interniaethau a phrentisiaethau â thâl, yn ogystal â rhaglenni gwirfoddoli strwythuredig, gael eu hystyried fel ffordd o gynnwys pobl o gymunedau lleiafrifol ethnig mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon.

- **Yr amgylchedd**

Mae nod ‘yr amgylchedd’ yn syndod o fyr, dim ond nodi uchelgais i gael gwared â rhwystrau i annog mwy o bobl o gymunedau lleiafrifol ethnig i gymryd rhan mewn Rhaglenni Lleodedd Lleol ar gyfer Natur. Rydym yn bendant yn cefnogi’r nod hwn, ond mae llawer mwy y gellid ei wneud, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, cael

cymunedau lleiafrifol ethnig i gymryd mwy o ran mewn mentrau amgylcheddol cymunedol, o gymryd rhan mewn sesiynau codi sbwriel cymunedol i redeg cynlluniau ynni cymunedol.

Mae amgylcheddau gwledig, ble y mae cymaint o bobl yn byw a gweithio, mor hanfodol i fywyd bob dydd ag amgylcheddau cefn gwlad. Mae Llywodraeth Cymru a'r sector eisoes wedi cael sgysiau ynghylch adfywio trefi. Mae cymaint o ganol trefi'n dechrau methu, gyda mwy a mwy o siopau â'u ffenestri dan goed. Gan gyfeirio'n ôl at y pwynt a wnaed yn gynharach ynghylch arweinyddiaeth seiliedig ar le, mae cyfle i ddatblygu arweinwyr cymunedol i weithio'n gydgyhyrchiol ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru er mwyn gwella ein hamgylcheddau trefol yn fawr, o ddefnyddio adeiladau gwag yng nghanol y dref i redeg stondinau marchnad lleol. Gallent hefyd helpu gyda chais Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pawb yn byw munudau i ffwrdd o fan gwyrdd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi penodi Gweinidog a Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn ddiweddar, felly mae'n rhyfedd nad oes unrhyw sôn yn yr adran hon am yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Byddai'n ddefnyddiol gweld camau gweithredu wedi'u pennu ar gyfer cynyddu amrywiaeth y bobl sy'n ymwneud â chyfrannu syniadau a chamau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

- **Y Gymraeg:**

Mae cymaint o ymrwymiad cydgyssylltiedig i'r Iaith Gymraeg ar draws amcanion polisi yn briodol ac yn ddefnyddiol. Cyfeiriwch yn ôl at ein sylwadau o dan yr adran 'Addysg' ynghylch yr angen i bartneriaid grant Cymraeg Llywodraeth Cymru gael cefnogaeth, a gweler hefyd rai geiriau gan Fentrau Iaith Cymru yn ddiweddarach yn yr ymateb hwn.

- **Democratiaeth leol:**

Mae'r sector gwirfoddol yn cefnogi pwysigrwydd annog yr ymgysylltiad ehangaf posibl â democratiaeth leol. Mae gwirfoddoli anffurfiol, bod yn angor neu'n weithredwr cymunedol, cyfrannu at ddemocratiaeth leol trwy gymunedau ffydd a chysylltiadau â chynghorau tref a chymuned i gyd yn berthnasol.

- **Materion trawsbynciol:**

Rydym yn croesawu cynhwysiant **gwirfoddoli anffurfiol** fel thema drawsbynciol, a'r dyhead i adlewyrchu'r ymdrechion ychwanegol gan wirfoddolwyr o grwpiau lleiafrifol na chaiff eu gwerthfawrogi'n aml. Mae hyn yn hynod bwysig o ran y Nodau ar gyfer gofal cymdeithasol, addysg a chydlyniant cymunedol.

Mae'r [Sbectrw m Cyfranogiad Gwirfoddolwyr](#) a gynhyrchwyd gan Gymunedau Eden yn dangos yn glir yr amrywiaeth o ffyrdd y gall gwirfoddolwyr anffurfiol a ffurfiol gyfrannu at lesiant unigolion a chymunedau. **Argymhella CGGC y dylai gwirfoddoli anffurfiol a ffurfiol gael cydnabyddiaeth gyfartal yn y strategaeth.**

Mae safonau ansawdd y DU gyfan, Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (liV), yn mesur saith meincnod ansawdd. Mae 93 o fudiadau yng Nghymru wedi ennill y safon liV, fel y rhestrir [yma](#). Mae maes ansawdd 3 (Cynnwys Gwirfoddolwyr) yn gofyn i fudiadau sicrhau bod dull cadarnhaol o ymdrin â chynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth a dull rhagweithiol o wneud gwirfoddoli'n hygyrch. **Argymhella CGGC bod dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn cael ei gyfeirio ato yn y strategaeth derfynol** fel offeryn i ymwreiddio arferion gorau mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn gwirfoddoli.

Gwnaeth CGGC, CLLC a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru weithio mewn partneriaeth i gyhoeddi [Gwirfoddoli a Llesiant yn ystod y pandemig – y goblygiadau i bolisi ac ymarfer](#), sy'n amlygu cymysgedd o weithgareddau gwirfoddoli anffurfiol a ffurfiol sy'n agweddau nodweddiadol ar yr ymateb gwirfoddol effeithiol yn ystod y pandemig. Mae hefyd yn cydnabod yr effeithiau cadarnhaol ar lesiant y gwirfoddolwyr eu hunain, yn ogystal â'r sawl sy'n cael ei gynorthwyo, ac yn rhoi tystiolaeth sy'n awgrymu bod yr ardaloedd hynny a oedd wedi buddsoddi mewn cydlyniant cymdeithasol cyn y pandemig – megis trwy raglenni penodol – wedi parhau i fod yn fwy cydlynol nag eraill yn ystod y pandemig yn ôl pob golwg. Yn yr un modd, gwnaeth seilwaith cyfredol chwarae rôl bwysig mewn cydlynu'r ymateb gwirfoddol a chyfrannu at lesiant cymunedol. Roedd hyn yn amrywio o fannau lleol, ffisegol ar ffurf neuadau eglwys a chaffis cymunedol, i lywodraethu lleol ar ffurf cynghorau tref a chymuned a chynghorau sir a bwrdeistref, i fudiadau trydydd sector fel elusennau, cynghorau gwirfoddol sirol (CVCs) a chyrff ambarél. Gan ystyried y dystiolaeth hon, **argymhella CGGC fod cyllido seilwaith priodol yn ganolog i ddatgloi potensial llawn gwirfoddoli**, sydd hefyd wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori fel thema drawsbynciol arfaethedig.

Yn olaf, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r **Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**, yn ystod y broses o osod y gyllideb a'r ddogfen Gyllideb derfynol, **yn gallu nodi sut mae ei phenderfyniadau wedi'u dylanwadu gan y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun.**

### **3. A oes unrhyw nodau a chamau gweithredu y gallwch feddwl amdanynt sydd ar goll? Pwy ddylai eu cyflawni a pha gamau a fyddai'n eu helpu i wneud hynny?**

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi nodi y dylai Cynhwysiant Digidol fod yn nod ac rydym ni'n cytuno â nhw. Datgelodd COVID-19 fod y rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn cynnwys nifer anghymesur o bobl o gymunedau lleiafrifol ethnig, yn ogystal â phobl hŷn a'r rheini sy'n dioddef o dlodi a phroblemau iechyd. Er mwyn sicrhau bod Cymru yn dod yn genedl wrth-hiliaeth, mae'n hanfodol fod gan bawb fynediad cyfartal at wasanaethau digidol.



#### **4. Beth yw'r heriau allweddol a allai atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth erbyn 2025?**

Mae llawer o'r hyn a ddywedwyd gennym o dan C1 yn berthnasol yma. Fodd bynnag, hoffem dynnu sylw hefyd at rai o'r sylwadau a gawsom yn Race Equality First, y byddwn ni'n eu dyfynnu yma.

'Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y broblem o ran hiliaeth sefydliadol ac anghydraddoldeb strwythurol yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (REAP) yn bendant yn gadarnhaol, yn enwedig pan wnaeth Adroddiad 2021 y 'Commission on Race and Ethnic Disparities' (CRED) wadu'n glir fodolaeth hiliaeth sefydliadol yn y DU ac, o ganlyniad, profiadau byw llawer o gymunedau lleiafrifol ethnig sy'n byw yn y DU, gan ddod i'r casgliad nad oedd Prydain mwyach yn wlad lle mae'r system wedi'i rigio'n fwriadol yn erbyn cymunedau lleiafrifol ethnig.

'Y brif her a fydd yn atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth erbyn 2025 yw os bydd y cynllun yn cael ei roi ar waith heb danategu'r camau a'r argymhellion yn y cynllun gweithredu sydd â dyletswydd gyfreithiol. Er enghraifft, mae cymdeithas sifil yn parhau i deimlo'n rhwystredig mai dim ond [disgwyliad](#) sydd ar ysgolion i gofnodi digwyddiadau sy'n ymwneud â rhagfarn mewn ysgolion yng Nghymru yn hytrach na dyletswydd gyfreithiol dros wneud hynny. Yn ôl gwaith ymchwil a wnaed gan 'Show Racism the Red Card' (Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth), mae hiliaeth yn parhau i fod yn [realiti](#) a wynebier gan lawer o blant cymunedau lleiafrifol ethnig yn eu bywydau ysgol bob dydd. Ynghyd â hyn, dengys [tystiolaeth](#) gan Estyn mai dim ond lleiafrif o ysgolion yng Nghymru sy'n cadw cofnodion defnyddiol ar fwlio, yn aml, dim ond yn cofnodi'r hyn y maen nhw'n eu hystyried yn ddifrifol.

'Wrth gwrs, mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) sy'n gofyn i awdurdodau cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, datblygu cyfle cyfartal a [meithrin cydberthnasau da](#). Fodd bynnag, mae pryderon nad yw'r PSED wedi'i rhoi ar waith yn llawn yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig ym maes addysg. Dywedir hyn oherwydd: mae cyrhaeddiad plant cymunedau lleiafrifol ethnig yn parhau i gael ei lesteirio gan brofiadau o hiliaeth yn eu bywydau ysgol bob dydd, gydag ychydig iawn, os o gwbl, o gamau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r hiliaeth hon; gan brinder pobl i ddangos esiampl mewn gweithlu addysg nad yw'n adlewyrchu proffil ethnig amrywiol Cymru, a chan gwricwlwm sydd wedi methu â [chynrychioli](#) hanes a chyfraniadau pobl o gymunedau lleiafrifol ethnig at gymdeithas Cymru.

'Rydyn ni'n teimlo felly bod yr enghraifft hon yn dangos yn eglur bod angen cynnwys atebolrwydd gwirioneddol o'r lefel uchaf un yn y drafodaeth onest hon am anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru a sut gall pethau wella – dim ond bryd hynny gallwn ni gyflawni Cymru 'wrth-hiliol.'

#### **5. Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at wasanaethau cymorth neu eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?**

Mae llawer o hyn wedi'i drafod eisoes, ond i grynhoi, bydd angen buddsoddi ymhellach yn y sector gwirfoddol er mwyn rhoi'r sefydlogrwydd sydd ei angen ar fudiadau i barhau i weithio gyda phobl anodd eu cyrraedd, y mae llawer ohonynt o gymunedau lleiafrifol ethnig, a'u hannog i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol. Dylai cyrff cyhoeddus gael eu cefnogi i gyd-gynhyrchu a chydgyllunio gwasanaethau fel eu bod nhw a'u defnyddwyr gwasanaethau yn dechrau deall a pharchu ei gilydd. Ac mae'n bosibl y bydd angen hyfforddiant i'w cefnogi â hyn, ac i ffrydio Gwerthoedd y Cynllun i mewn i fudiadau ar hyd a lled y wlad.

**6. Ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriad hil â nodweddion gwarchoddedig eraill megis crefydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywedd, rhyw, a statws priodasol a phartneriaeth sifil? Os na, sut y gallwn wella hyn?**

Fel y nodwyd gan 'Race Equality First', gallai'r Cynllun hefyd fod wedi cydnabod y ffyrdd y caiff problemau ceiswyr lloches LGBTQIA+ eu dwysau gan anghydraddoldebau hiliol a rhywiol sy'n croesi ar draws ei gilydd. Er enghraifft, mae rhai ceiswyr lloches LGBTQIA+ wedi'u rhoi mewn lletyau anaddas, yn rhannu gyda phobl nad ydynt yn derbyn eu hunaniaeth, ac mae rhai digwyddiadau wedi arwain at [droseddau casineb, trais corfforol a phobl yn cael eu bygwth](#). Hefyd, gallai'r Cynllun fod wedi cydnabod yr effaith groestoriadol yn y maes gofal iechyd ymhellach. Mae menywod du [bum gwaith yn fwy tebygol](#) o ddioddef marwolaeth famol a menywod Asiaidd ddwywaith yn fwy tebygol, o'u cymharu â menywod gwyn yn y DU. Ond yn ôl pob golwg, nid oes data penodol ar hyn yn bodoli yng Nghymru.

**7. Gweler yr adran Llywodraethu. Pa awgrymiadau allwch chi eu cynnig ar gyfer mesur llwyddiant wrth greu Cymru wrth-hiliol ac ar gyfer cryfhau atebolrwydd am weithredu?**

Er mwyn i'r Cynllun cael y siawns orau o lwyddo, rhaid i'r camau gweithredu a'r argymhellion gael sylfeini dyletswydd gyfreithiol, gyda llwybrau atebolrwydd clir. Heb hyn, mae'n haws anwybyddu'r camau gweithredu a'r argymhellion a'u gwneud yn bethau 'braf eu cael', yn hytrach na'n ofynion a allai newid Cymru er gwell.

**8. Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**

Mae Mentrau Iaith Cymru wedi cyflwyno'r canlynol i CGGC:

'Mae Mentrau Iaith Cymru a'r rhwydwaith o 22 o Fentrau Iaith ledled Cymru yn llwyr gefnogi'r weledigaeth o fewn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, sy'n ceisio hybu mynediad at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymunedau lleiafrifol ethnig ledled Cymru.

'Fel rhwydwaith o Fentrau Iaith, rydym wrthi'n dysgu o brofiadau amrywiol siaradwyr Cymraeg o gymunedau lleiafrifol ethnig er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau ein hunain mor gynhwysol â phosibl i aelodau'r cymunedau hyn. Croesawir y nod o fewn y Cynllun Gweithredu sydd â'r bwriad o ddeall y rhwystrau a'r cyfleoedd i bobl o gymunedau lleiafrifol ethnig yn well, ynghyd â'r camau gweithredu niferus. Fel mudiadau sy'n cael cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, rydym yn croesawu'r cyfle i ystyried a rhoi sylw i unrhyw rwystrau y mae cymunedau lleiafrifol ethnig yn eu hwynebu wrth geisio cael gweithgareddau neu gyfleoedd yn y Gymraeg ac yn ymrwymedig i hyrwyddo gwrth-hiliaeth o fewn ein gwaith ledled cymunedau. Mae'r amrediad o gamau gweithredu arfaethedig ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor yn cyflwyno dull cynhwysfawr o sicrhau bod y Gymraeg mor gynhwysol â phosibl trwy ystyried rôl addysg, y cyfleoedd o fewn y gymuned i ddefnyddio'r iaith a datblygiad terminoleg briodol o fewn y Gymraeg i drafod gwrth-hiliaeth.

'Rydym ni, fel rhwydwaith o fudiadau, wedi dechrau asesu ac ystyried ein rôl ein hunain o fewn y broses o sicrhau bod gan gymunedau lleiafrifol ethnig fynediad cyfartal at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'u bod yn cael eu cynrychioli o fewn ein mudiadau. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cefnogi'r broses hon yn bendant ac yn gosod canlyniadau clir, cyraeddadwy. Mae'r broses hon hefyd wedi amlygu'r rôl hanfodol sydd gan y mudiadau hynny sy'n cynrychioli cymunedau lleiafrifol ethnig o ran adlewyrchu amrywiaeth ieithyddol Cymru a'r Gymraeg yn benodol. Byddem felly'n croesawu cynhwysiant cam gweithredu sy'n rhoi'r cyfle i fudiadau Cymraeg ymgysylltu'n llawn â'r mudiadau hynny sy'n cefnogi ac yn cynrychioli cymunedau lleiafrifol ethnig.

'Ynghyd â hyn, gellid gwella'r Cynllun Gweithredu ymhellach trwy ychwanegu cam sy'n gofyn i fudiadau sy'n cefnogi ac yn cynrychioli cymunedau lleiafrifol ethnig ddatblygu eu gwasanaethau a'u darpariaethau Cymraeg eu hunain, gan gynnwys hyrwyddo eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Teimlir y byddai'r camau gweithredu pellach hyn yn cefnogi datblygiad cysylltiad cryf rhwng y Gymraeg a'n cymunedau lleiafrifol ethnig.'

9. **Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y dull polisi arfaethedig er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
10. **Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos nad yw llawer o bobl yn ystyried bod y term 'BAME' yn briodol. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol**

**neu bobl ethnig leiafrifol penodol yn y Cynllun. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y term hwn hefyd yn broblemus a'i bod yn well, lle bo'n bosibl, bod yn fwy penodol am yr hil neu'r ethnigrwydd y mae unigolyn neu gymuned yn uniaethu ag ef. Fodd bynnag, ar adegau mae angen cyfeirio at yr holl bobl hynny sy'n rhannu'r profiad o fod yn destun hiliaeth. Rydym wedi defnyddio'r term pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol at y diben hwn. Beth yw eich barn am y term hwn ac a oes dewis arall sy'n well gennych? Gall siaradwyr Cymraeg ystyried termau addas yn y ddwy iaith.**

Mae CGGC yn cydnabod natur broblemus BAME/BME, ac mae wrthi'n ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol o ran y derminoleg y gallai ei defnyddio tra rydym yn aros i fersiwn derfynol y Cynllun Gweithredu gael ei chyhoeddi.

**9. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydynt wedi cael sylw penodol yma, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:**

Byddai CGGC yn falch o drafod ei ymateb ymhellach gyda Gweinidogion, swyddogion neu Bwyllgorau.

Diolchwn i'r mudiadau a'r grwpiau a roddodd o'u hamser i gyfrannu eu tystiolaeth eu hunain at ein hymateb. Mae'r rhain yn cynnwys Busnes yn y Gymuned, Race Equality First, Canolfan Cydweithredol Cymru, y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol, y Gynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Gofal Canser Marie Curie, Mentrau Iaith Cymru a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech gadw'ch ymateb yn ddienw, ticiwch yma: